GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU
SWYDD DDISGRIFIAD

Adran	**Diogelwch Cymunedol a Phartneriaethau**
Swydd	**Hyfforddwr Cadetiaid Tan (Staff Gweithredol neu Gorfforol**
Rhif y Swydd	**N/A**
Gradd	**N/A**
Lleoliad	**Unedau Cadetiaid Tan Amrywiol**
Cyfrifol i	**Rheolwr Uned / Rheolwr/Rheolwyr Cadetiaid Tan**
Cyfrifol am	**Cadetiaid Tan**
Cyfrifoldeb am Adnoddau Corfforol	**Dim**
Ccyfrifoldeb am Adnoddau Ariannol	**Dim**

Mae'r disgrifiad swydd hwn yn cyfeirio at brif bwrpas a chyfrifoldebau'r swydd. Nid yw o reidrwydd yn rhestru'n fanwl yr holl dasgau sydd eu hangen i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Bydd y disgrifiad swydd hwn yn cael ei adolygu yn ôl yr angen i sicrhau ei fod yn cwrdd â gofynion busnes y Gwasanaeth.

PRIF BWRPAS Y SWYDD
Hwyluso a chyflwyno'r Cynllun Cadetiaid Tân ar draws GTADC a chefnogi a mentora pobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u datblygiad personol i'w galluogi i ddod yn fodelau rôl effeithiol yn y gymuned a symud ymlaen yn gadarnhaol i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant pellach.

DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

1. Cynorthwyo i gyflwyno Dyfarniad Cadetiaid Tân / BTEC Lefel 2 mewn Gwasanaethau Tân ac Achub yn y Gymuned fel rhan o Gynllun Cadetiaid Tân GTADC.

2. Defnyddio'r cynlluniau sesiwn a'r adnoddau a ddarparwyd i gyflwyno'r Cynllun Cadetiaid Tân, gan sicrhau bod amgylchedd dysgu cadarnhaol yn cael ei greu ar gyfer yr holl gyfranogwyr

3. Arwain elfennau hyfforddi a datblygu maes ymarfer ieuenctid gweithredol y Cadetiaid Tân yn ôl yr angen **(Staff Gweithredol yn Unig gyda chymwyster Diogel i Oruchwylio)**

4. Sicrhau bod cymhwysedd gweithredol yn cael ei gynnal er mwyn darparu hyfforddiant a datblygiad maes ymarfer ieuenctid yn ddiogel, a sicrhau bod cymhareb hyfforddwr digonol o 1:5 yn cael ei chynnal **(Staff Gweithredol yn Unig gyda chymwyster Diogel i Oruchwylio)**

5. Cefnogi a mentora pobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a meithrin eu datblygiad personol i'w galluogi i ddod yn fodelau rôl effeithiol yn y gymuned a symud ymlaen yn gadarnhaol i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant pellach

6. Cynorthwyo i ddatblygu sgiliau personol megis hyder, cyfathrebu, gweithio mewn tîm, cymhelliant, hunan-barch a hunanddisgyblaeth

7. Cymryd rhan mewn mentrau lleol a chenedlaethol a chynorthwyo i gyflwyno gweithredu cymdeithasol a digwyddiadau elusennol yn ôl yr angen

8. Cynnal gwybodaeth a chydymffurfio â gofynion amddiffyn plant, diogelu, GDPR ac iechyd a diogelwch

9. Cynorthwyo i ddiweddaru a chynnal data Cadetiaid Tân megis cofnodion presenoldeb electronig yn ôl yr angen

10. Bod yn Esiampl gadarnhaol ar gyfer Pobl Ifanc bob amser

11. Cynnal cymwyseddau craidd personol a helpu i ddatblygu rhai pobl eraill lle bo'n briodol

12. Ymgymryd ag unrhyw ddigwyddiadau neu gyrsiau hyfforddi sy'n berthnasol i rôl Hyfforddwr Cadetiaid Tân

GOFYNION GWASANAETH SAFONOL

- Mynychu cyrsiau hyfforddi mewnol ac allanol yn ôl yr angen.
- Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesur â'r raddfa a'r swydd.
- Cydweithredu'n llawn ag unrhyw gynllun neu gynllun peilot sy'n defnyddio'r un peth, a gyflwynir o fewn yr adran neu ar draws y Gwasanaeth.
- Gweithredu egwyddorion Polisïau Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth a Chynlluniau Iaith Gymraeg y Gwasanaeth wrth gyflawni'r dyletswyddau uchod.
- Ufuddhau i Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch/Polisïau a Gweithdrefnau Gwasanaeth Perthnasol a chymryd gofal rhesymol am eich iechyd a'ch diogelwch eich hun a phobl eraill y gallai eich gweithredoedd/anweithiau effeithio'n andwyol arnynt.

GWERTHOEDD SEFYDLIADAU

Wrth gyflawni'r rôl uchod, mae'n ofynnol i holl weithwyr y Gwasanaeth ufuddhau a hyrwyddo Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth i fod, bob amser yn:

- Broffesiynol
- Ofalgar
- Barchus
- Ymroddedig
- Ddibynadwy
- Egnïol
- Ddisgybledig
- Hydwyth

Bydd angen Datgeliad Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd manylach os bydd eich cais yn llwyddiannus. Ni fydd cael cofnod troseddol o reidrwydd yn rhwystr i gael swydd.